## Adroddiad Blynyddol Cynghorydd CBSP

**Y Cynghorydd John C. Spanswick** **Ward: Bracla**

**Plaid: Llafur**

Mae'r adroddiad hwn yn nodi fy ngweithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 30 Ebrill 2018**.** Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid at unrhyw ddiben arall Barn y Cynghorydd yw'r farn a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o reidrwydd yn adlewyrchu barn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

**Rôl a Chyfrifoldebau**

Cefais fy ethol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i gynrychioli Bracla ar 4 Mai 2017. Rwyf wedi ymgymryd ag amrywiaeth o rolau yn y cyngor eleni gan gynnwys cael fy mhenodi i sawl pwyllgor fel y rhestrir isod:-

Trosolwg a Chraffu Corfforaethol
Trosolwg a Chraffu Pwnc 3 (Cadeirydd)
Rheoli Datblygu (Cynllunio)
Cyngor
Panel Ymchwil a Gwerthuso'r Gyllideb

Rwyf wedi cefnogi trigolion fy ward ar amrywiaeth o faterion ac rwyf wedi codi'n ffurfiol 117 o ymholiadau etholwyr gyda'r cyngor a sefydliadau eraill. Mae hyn yn ychwanegol at fynd i'r afael yn anffurfiol â nifer o faterion eraill rydych wedi gofyn i mi eich helpu i'w datrys.

I'm galluogi i gyflawni fy rôl fel eich cynrychiolydd, rwyf wedi mynd i nifer o weithgareddau datblygu aelodau sydd wedi fy nghynorthwyo i sicrhau fy mod yn cynnal fy ngwybodaeth am faterion cenedlaethol a lleol sy'n effeithio ar y cyngor a'm ward.

Ceir rhagor o wybodaeth am fy **rolau, cyfrifoldebau a gweithgareddau** drwy ddilyn y ddolen hon.

**Gweithgarwch Etholaeth**

Presenoldeb rheolaidd yng nghyfarfodydd PACT Bracla a thrafodaeth gydag aelodau cymunedol ar faterion perthnasol yn dilyn pob cyfarfod PACT. Rwyf bob amser ar gael i drafod pryderon a godir gan drigolion ac yn parhau i weithredu ar eu rhan ar amrywiaeth eang o bynciau fel pryderon amgylcheddol, materion diogelwch ar y ffyrdd a'r heddlu, gorfodi sbwriel a baw cŵn, cynnal a chadw mannau agored, materion priffyrdd, gorfodi cynllunio, gwasanaethau plant a gwasanaethau cymdeithasol. Mewn gwirionedd unrhyw beth y mae gan aelod o'r cyhoedd broblem neu ymholiad yn ei gylch, byddaf bob amser yn ymdrechu i helpu.

Yn ogystal â chael fy ethol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar 4 Mai 2017, cefais fy ethol i Gyngor Cymuned Bracla hefyd. Er nad oes gan y cyngor cymuned

amrywiaeth eang o bwerau neu gyfrifoldebau, mae llawer o weithgareddau a gynhelir gan y cyngor cymuned fel yr arddangosfeydd blodau, torri gwair, biniau sbwriel a gwelliannau amgylcheddol cyffredinol ac rwy'n gobeithio y gall y trigolion weld y gwahaniaeth mae'n ei wneud yn y gymuned leol.

Rwyf wedi bod yn ffodus i gael fy mhenodi yn Gadeirydd Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Pwnc 3.

Yn ogystal, fy yw'r unig aelod o Fracla i eistedd ar y Pwyllgor Rheoli Datblygu (Cynllunio)

**Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**

Ers mis Ionawr 2017 rwyf wedi bod yn aelod gweithredol a sylfaenydd Tîm Cymorth Amgylcheddol Bracla (B.E.S.T.). Mae'r grŵp gwirfoddol hwn yn cynnal sesiynau casglu sbwriel rheolaidd a sesiynau glanhau amgylcheddol. Yn ystod hydref y llynedd, treuliais benwythnos yn ceisio cael gwared ar gymaint o ddail â phosibl o rai o'n llwybrau troed a rhodfeydd poblogaidd er mwyn helpu i atal yr amodau llithrig yn sgil swm y dail sy'n disgyn.

Rhaid eich bod wedi sylwi bod y contract gwastraff newydd wedi cael ei gyflwyno ym mis Mehefin y llynedd a'r dryswch a'r anhrefn a ddilynodd hynny gyda'r system casglu newydd ar gyfer ailgylchu. Cynrychiolais lawer o drigolion Bracla yn ystod y misoedd a ddilynodd hynny wrth geisio sicrhau eu bod yn cael y cynwysyddion cywir a'r bagiau glas newydd ac ati ac rwy'n parhau i ymdrin â materion lle mae rhai trigolion yn cael problemau o hyd gyda'r system ac o ran derbyn cynwysyddion a bagiau.

Rwyf wedi cefnogi a helpu i drefnu Diwrnod Hwyl Bracla ers ei sefydlu yn 1998 pan oeddwn yn Gadeirydd Cyngor Cymuned Bracla. Mae hwn yn parhau i fod yn llwyddiant mawr bob blwyddyn ac mae'n cael ei ariannu'n llawn gan Gyngor Cymuned Bracla i'r gymuned gyfan ei fwynhau.

**Gweithgareddau/Materion Eraill**

Lle bynnag y bo modd rwy'n ceisio cyfathrebu drwy e-bost a / neu dros y ffôn ond rwyf wedi ymweld â chartrefi hefyd i drafod pryderon gyda thrigolion y mae'n well ganddynt siarad â mi yn bersonol ar sail gyfrinachol.

Gellir bob amser cysylltu â mi ar fy ffôn symudol, ond os wyf yn brysur neu oddi cartref byddaf yn ceisio ateb cyn gynted â phosibl. E-bost yw'r ffordd fwyaf effeithiol o hyd i mi gadw mewn cysylltiad â thrigolion. (cllr.john.spanswick@bridgend.gov.uk)

Nid wyf wedi trefnu cymorthfeydd penodol oherwydd yn y gorffennol rwyf wedi sylwi nad oes nifer da yn dod i'r rhain a byddai'n well gennyf fod ar gael pan fydd fy angen ar bobl yn hytrach nag yn ystod cymhorthfa.

**Cynghorydd:J. C. Spanswick** **Dyddiad: 20 Mai 2018**